Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Y cefndir

1. Ar 5 Ionawr, gosododd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[1] y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil[2]. Mae'r Memorandwm yn ymwneud â chymalau'r Bil sy'n cynnwys darpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol blaenorol [3]ar gyfer y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil yn ymwneud â darpariaethau ar gyfer cyllid amgen i fyfyrwyr ar 17 Tachwedd a chafodd ei ystyried gan y Pwyllgor ar 14 Rhagfyr 2016. Gosodwyd Adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm cychwynnol ar 12 Ionawr 2017.[4]

3. Mae Rheol Sefydlog 29 yn cynnwys manylion ynghylch y broses gydsynio mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Pan fydd Senedd y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl y confensiwn, mae gofyn iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn pasio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Bydd y Cynulliad yn rhoi'r cydsyniad hwn drwy gyfrwng Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.

4. Cyn y gellir cyflwyno Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth dan sylw, a chaiff un neu fwy o Bwyllgorau'r Cynulliad ei ystyried maes o law. Yn yr achos hwn, cafodd y Memorandwm ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried a chyflwyno adroddiad yn ei gylch.

---

[1] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2): Y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil
[2] Y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil
[3] Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil
[4] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

5. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw creu mwy o gystadleuaeth a dewis yn y sector addysg uwch yn Lloegr, codi safonau ac ychwanegu at fedrusrwydd y Deyrnas Unedig mewn ymchwil ac arloesedd. Mae'n gwneud darpariaeth:

- ar gyfer sefydlu corff cyllido newydd ar gyfer rheoleiddio ac addysgu yn sector addysg uwch Lloegr – sef y Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr (Office for Students);
- i'r Swyddfa gynnal cofrestr o ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr, ynghyd â chynnal cynllun sgorio ansawdd a safonau (y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ("Teaching Excellence Framework"));
- i'r Swyddfa ddyroddi'r pŵer i ddyfarnu graddau ynghyd â theitl 'prifysgol' i ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr (pan fo darparwyr yn gwneud cais am bwerau dyfarnu graddau neu deitl 'prifysgol');
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dderbyn data gan ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr at ddibenion ymchwil – gan gynnwys yr holl ddata o'r broses o wneud cais hyd at gael eu derbyn, os ydynt yn cynnig gwasanaeth – os ydynt yn defnyddio gwasanaeth derbyniadau canolog neu'n rhannu gwasanaeth derbyniadau â sefydliadau eraill;
- ar gyfer trefnu moddau amgen o wneud taliadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru a Lloegr;
- i gorfforaethau addysg uwch yn Lloegr gael eu dadreoleiddio; a
- chreu corff ymchwil ac arloesedd newydd: Ymchwil ac Arloesedd y Deyrnas Unedig (United Kingdom Research and Innovation).

Y darpariaethau sy'n destun y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

6. Roedd y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn gwneud darpariaeth yng nghymal 82 i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Deddf 1998) fel eu bod yn gallu:

- gwneud y rheoliadau cymorth myfyrwyr addysg uwch blynyddol yn y fath fodd fel eu bod yn dynodi cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau yn Lloegr drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir y Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr neu bersonau eraill (fel y gofrestr arfaethedig o ddarparwyr); a

- phennu uchafsymiau o gymorth i fyfyrwyr sy'n daladwy i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau yn Lloegr drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu bersonau eraill (fel sgoriau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu).

7. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach i'r Bil Mesur yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r Memorandwm Atodol yn ymdrin â'r gwelliannau hynny, sy'n ymwneud â Chymorth Ariannol i Fyfyrwyr a'r Cynllun Cwynion Myfyrwyr.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr

8. Mae'r gwelliannau i gymalau 82(2) ac 82(4) y Bil yn ei gwneud yn glir y gall rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan y Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr, yr Ysgrifennydd Gwladol neu bersonau eraill, p'un a oedd y penderfyniad neu'r cyhoeddiad cyn neu ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud.

9. Effaith y diwygiadau fyddai y gallai rheoliadau cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru gyfeirio at y wybodaeth fwyaf diweddar ynghylch sgoriau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a'r gofrestr o ddarparwyr i'w chyhoeddi gan y Swyddfa ar gyfer Myfyrwyr, yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth a gyhoeddwyd eisoes adeg gwneud y rheoliadau.

10. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, pe na bai'r gwelliannau hyn yn gymwys i Gymru, yna gallai fod perygl na fyddai swm y cymorth sy'n daladwy i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau yn Lloegr yn cyd-fynd â'r ffioedd y mae'r sefydliadau hynny'n eu codi. Gallai hyn olygu y gallai'r ffioedd sy'n daladwy gan fyfyrwyr o Gymru fod yn fwy na swm y cymorth i fyfyrwyr sy'n daladwy o dan reoliadau Llywodraeth Cymru, ac y gallai fod angen i fyfyrwyr dalu'r gwahaniaeth, h.y. talu ffioedd ymlaen llaw.

Cynllun Cwynion Myfyrwyr

11. Bydd y gwelliannau i gymalau 83 a 118 yn arwain at amddiffyniad trosiannol i fyfyrwyr mewn cysylltiad â'r cynllun cwynion addysg uwch annibynnol yng nghymal 83(3) y Bil sy'n berthnasol mewn perthynas â sefydliadau cymwys yng Nghymru.

12. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi, gan fod y cynllun cwynion yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr, ei bod yn ddymunol i sail gyfreithiol y cynllun barhau i fod yn gyson yn y ddwy weinyddiaeth. Bydd gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth amddiffyniad trosiannol newydd yn berthnasol i sefydliadau cymwys yng Nghymru yn sicrhau bod y cynllun yn cynnig yr un lefel o amddiffyniad i fyfyrwyr sy'n astudio gyda darparwyr yng Nghymru â'r rheini sy'n astudio gyda darparwyr yn Lloegr.

Cymhwysedd Deddfwriaethol

13. Mae'r Memorandwm Atodol yn gywir wrth nodi'r darpariaethau perthnasol yn y Bil sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant o dan baragraff 5 o Ran 1, Atodlen 7 yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. O'r herwydd, mae angen cydsyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ni wnaeth y Pwyllgor nodi unrhyw faterion cyfreithiol.

Priodoldeb y broses ddeddfwriaethol

14. Ym marn Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Memorandwm Atodol, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur er mwyn galluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys ar gyfer Cymru.

15. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio i'r darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru.

Ystyriaeth a Chasgliad y Pwyllgor

16. Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Atodol ar 1 Chwefror 2017. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y bydd y Bil yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â Chymru, a hynny at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ar sail y Memorandwm Atodol a gyflwynwyd, nid oes gan y Pwyllgor unrhyw bryderon ynghylch y broses.